



Adroddiad Arolygu ar

Cartref Gofal Annwyl Fan

**Cartref Annwyl Fan
Ffordd y Cynol
Y Betws
Rhydaman
SA18 2HW**

Mae'r adroddiad hwn hefyd ar gael yn Saesneg

This report is also available in English

Dyddiad y cwblhawyd yr arolygiad

26/10/2021

12 Tachwedd 2021

Llywodraeth Cymru © Hawlfraint y Goron 2021.

Gallwch ddefnyddio ac aildefnyddio'r wybodaeth a geir yn y cyhoeddiad hwn (ac eithrio logos) yn rhad ac am ddim, ar unrhyw ffurf neu gyfrwng, o dan delerau'r Drwydded Llywodraeth Agored. Gallwch weld Trwydded Agored y Llywodraeth ar wefan yr Archifau Gwladol, neu gallwch ysgrifennu at The Information Policy Team, The National Archives, Kew, London, TW9 4DU, neu anfon e-bost at:psi@nationalarchives.gsi.gov.uk

Rhaid ichi atgynhychu ein deunydd yn fanwl gywir a pheidio â'i ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol.

Ynglŷn â Chartref Gofal Annwyl Fan

Math o ofal a ddarperir	Gwasanaeth cartref gofal Oedolion â gofal nyrsio
Darparwr cofrestredig	Cartref Annwyl (Ammanford) Limited
Lleuedd cofrestredig	70
Iaith y gwasanaeth	Y ddwy
Arolygiad blaenorol gan Arolygiaeth Gofal Cymru	20/02/2020
A yw'r gwasanaeth hwn yn darparu'r Cynnig Rhagweithiol o ran y Gymraeg?	Nid yw'r gwasanaeth hwn yn darparu 'Cynnig Rhagweithiol' o ran y Gymraeg. Nid yw'n rhagweld, yn nodi nac yn diwallu anghenion Cymraeg y bobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth, neu sy'n bwriadu defnyddio'r gwasanaeth.

Crynodeb

Mae pobl yn derbyn gwasanaeth da gan reolwr gwybodus a thîm o staff ymroddgar. Mae gan yr unigolyn cyfrifol oruchwyliaeth dda o'r gwasanaeth. Mae'r gwasanaeth yn cael ei fonitro trwy offerynnau archwilio ansawdd ac ymweliadau Rheoliad 73 yr unigolyn cyfrifol.

Mae iechyd a llesiant unigol pobl yn bwysig i'r rhai sy'n darparu'r gofal a chymorth. Mae pobl sy'n byw yn y gwasanaeth a'u perthnasau wedi cadarnhau hyn. Dylid rhoi ystyriaeth i sicrhau bod manylion am unigolion a'u hanghenion yn cael eu dogfennu'n llawn er mwyn gwella'r wybodaeth sydd ar gael amdanynt.

Mae'r amgylchedd yn ddiogel ac mae mesurau rheoli ac atal heintiau priodol ar waith yn unol â chanllawiau Iechyd Cyhoeddus Cymru. Mae rhaglen ailwampio fawr yn mynd rhagddi.

Llesiant

Cydnabyddir dewisiadau a barn pobl. Cynorthwyr pobl i gymryd rhan mewn gweithgareddau grŵp ac un i un o'u dewis. Mae'r unigolyn cyfrifol yn ceisio safbwyntiau'r bobl sy'n byw ac yn gweithio yn y gwasanaeth yn ystod ymweliadau personol a rhithwir. Gall pobl bersonoli eu hystafelloedd gwely ag eitemau sydd yn bwysig iddynt fel dodrefn, addurniadau, ffotograffau a gwaith celf. Mae pobl yn cael cynnig bwyd a lluniaeth o'u dewis gydag opsiynau amgen ar gael yn rhwydd. Mae pobl yn gallu cymryd rhan mewn ystod o weithgareddau, hobiau a diddordebau y maent yn eu mwynhau.

Mae pobl yn cael eu hamddiffyn rhag niwed a chamdriniaeth. Mae'r gweithwyr gofal yn siarad yn ofalgar am yr unigolion sy'n byw yn y cartref ac mae ganddynt ddealltwriaeth dda o anghenion y bobl a sut i ddiwallu'r anghenion hyn. Mae'r gweithwyr gofal yn rhyngweithio â phobl ac yn eu cynorthwyo mewn ffordd ystyriol a gofalgar. Mae cofnodion gofal yn darparu gwybodaeth am anghenion a hoffterau'r bobl; fodd bynnag, mae angen rhagor o fanylion er mwyn rhoi gwell ymdeimlad o'r unigolyn. Mae staff gofal yn deall eu cyfrifoldebau o ran amddiffyn pobl yn glir ac mae hwn yn cael ei gefnogi gan bolisiau sy'n cael eu hadolygu a'u diweddarau'n rheolaidd.

Mae mesurau rheoli heintiau priodol ar waith ac mae staff yn deall yn glir beth yw eu rôl a'u cyfrifoldebau o ran sut i reoli ac atal heintiau. Mae'r gwasanaeth yn lân a heb arogleuon drwg, ac mae rhaglen helaeth o waith cynnal a chadw a gwelliannau. Mae mesurau recriwtio yn sicrhau bod gan y staff sy'n gweithio yn y cartref y sgiliau ac ymagwedd gywir tuag at ofal. Mae'r gwasanaeth yn cysylltu â gweithwyr iechyd a gofal cymdeithasol proffesiynol i sicrhau bod pobl yn cadw mor iach â phosib.

Gofal a Chymorth

Mae gan staff neilltuedig ddealltwriaeth dda o anghenion y bobl sy'n byw yn y gwasanaeth. Mae rhyngweithio'n gadarnhaol ac yn ofalgar, a siaradodd aelodau o staff yn frwdfrydig ynglŷn â gofalu am bobl a gweithio yn y gwasanaeth. Dywedodd un gweithiwr gofal wrthym, *"Gall fod yn llawn cynnwrf yma, ond rwy'n hoffi'r cyflymder"* ac *"Edrych ar ôl ein preswylwyr a'u cadw'n ddiogel yw'n blaenoriaeth."* Dywedodd y bobl a'u perthnasau wrthym eu bod yn hapus gyda'r gofal y maent yn ei dderbyn a gwnaethant ganmol y staff gofal: *"Mae'n hyfryd yma, maent i gyd yn dda iawn – rwy'n mwynhau fy hunan"* ac *"Rwy'n meddwl bod y staff yn dda iawn ac yn gefnogol"* ac *"Rwy'n meddwl bod fy chwaer yn mwynhau byw yn y cartref – mae'n cael cyfnodau isel, ond mae'r staff mor ofalgar."*

Mae pobl yn gallu cymryd rhan mewn gweithgareddau grŵp ac unigol rheolaidd. Gwelsom nifer o bobl yn ymuno â gweithgareddau gwahanol yn ystod ein hymweliad. Dywedodd y bobl wrthym eu bod nhw'n mwynhau'r gweithgareddau rheolaidd gyda'u ffrindiau. Mae unigolion yn gallu gwneud hobiau a diddordebau gan y dywedodd un unigolyn wrthym, *"Rwy'n hoffi gwneud celf"*, gan ddangos y gwaith celf y mae wedi'i gwblhau inni ar waliau ei ystafell wely.

Mae rhai pryderon wedi cael eu codi am bolisi ymweld y sefydliad yn ystod y pandemig. Fodd bynnag, mae'r adborth gan yr holl berthnasau a'r bobl yr ydym wedi siarad â nhw yn gadarnhaol, gan gynnwys: *"Nid oes gennyf unrhyw broblemau gyda'r drefn ymweld yn y cartref. Meddyliais fod y pod ymweld yn rhyfedd ond erbyn hyn rwy'n ymweld yn ei hystafell wely"* ac *"Nid oes gennyf unrhyw broblemau gyda'r trefniadau ymweld - rwy'n deall y cyfyngiadau ac nid wyf erioed wedi teimlo pwysau gan y staff yn ystod fy ymweliad."*

Mae gan y cartref sgôr hylendid bwyd o bum seren gyda bwydlenni amrywiol yn cynnwys dewisiadau bob dydd. Yn ôl pob golwg, mae adegau bwyd yn ddigwyddiadau cymdeithasol cadarnhaol a phlesurus iawn. Gwnaethom arsylwi ar brydau o fwyd a oedd wedi'u cyflwyno'n dda yn cael eu dosbarthu i'r bobl a oedd yn bwyta yn eu hystafelloedd eu hunain. Dywedodd dau unigolyn wrthym, *"Mae'r prydau o fwyd yn flasus iawn!"* a'u bod *"yn ardderchog"*.

Mae lefelau digonol o staff ar waith i ddiwallu anghenion gofal y bobl sy'n byw yn y gwasanaeth. Dywedodd y staff gofal wrthym fod rhai materion wedi bod o ran absenoldeb staff oherwydd salwch yn sgil y pandemig ond maent wedi cefnogi ei gilydd trwy gyflenwi shifftiau. Mae'r gweithwyr gofal yn ymateb i ymholiadau pobl mewn da bryd, ac mae'r rhyngweithio yn gyfeillgar, yn barchus ac yn hamddenol.

Mae gan staff gofal fynediad at gofnodion gofal electronig, sy'n amlinellu'r gofal sydd ei angen ar bobl i'w cadw'n iach. Mae cynlluniau'n rhoi gwybodaeth am anghenion pobl; fodd bynnag, mae angen mwy o fanylion er mwyn gwella'r wybodaeth am yr unigolyn. Mae gweithwyr proffesiynol iechyd a gofal cymdeithasol yn ymwneud â phobl ac mae hyn wedi cael ei nodi'n dda yn eu cofnodion gofal. Mae mesurau priodol ar waith ar gyfer storio, rhoi a chofnodi meddyginiaeth yn ddiogel. Mae gan y staff gofal ddealltwriaeth dda o arferion meddyginiaeth ddiogel a gwybodaeth dda am ddefnyddio meddyginiaethau penodol i gynorthwyo pobl sy'n byw gyda dementia.

Mae'r gwasanaeth yn hyrwyddo arferion hylendid i leihau risgiau heintio. Mae'r staff yn gwisgo cyfarpar diogelu personol priodol ac yn cydymffurfio â chanllawiau cyfredol Iechyd Cyhoeddus Cymru. Mae'r rheolwr wedi gweithio gyda swyddogion Iechyd yr Amgylchedd a'r Bwrdd Iechyd Lleol i sicrhau bod y gwasanaeth yn bodloni ei rwymedigaethau ynglŷn â mesurau atal a rheoli heintiau. Mae polisïau a gweithdrefnau ar waith i gefnogi arferion da ac mae'r staff gofal yn deall y rhain yn glir, yn ogystal â'u cyfrifoldebau o ran amddiffyn pobl rhag heintiau.

Yr Amgylchedd

Mae trefniadau ar waith i leihau'r risgiau i iechyd a diogelwch pobl. Mae gwaith profi a gwasanaethu cyfarpar diffodd tân a symud a thrin yn cael ei wneud o fewn yr amserlenni gofynnol. Mae'r Cynlluniau Personol Gadael mewn Argyfwng wedi cael eu personoli ac maent ar gael yn rhwydd mewn argyfwng. Mae'r larymau tân o fewn cyrraedd ac mae pobl yn ymateb iddynt o fewn amser priodol pan fyddant yn canu.

Mae mesurau atal a rheoli heintiau ar waith oherwydd y pandemig, ac mae gorsafedd glanweithdra a chyfarpar diogelu personol wedi'u lleoli ledled y cartref. Mae dulliau profi COVID-19 ar waith i bob ymwelydd sydd yn dod i gwrdd â'i berthynas yn y gwasanaeth. Dylai'r biniau yn y manau cymunol gael eu disodli â biniau pedal a weithredir gan droed er mwyn lleihau'r risg o groes-heintio. Mae sylweddau sydd yn beryglus i iechyd yn cael eu storio'n ddiogel ac mae ardaloedd cymunol yn glir a heb beryglon. Mae gwiriadau gwaith cynnal a chadw, gwaith gwasanaethu ac archwiliadau trwyadl. Mae'r amgylchedd yn lân a heb unrhyw arogleuon drwg.

Mae'r amgylchedd yn cynorthwyo pobl i gyflawni eu canlyniadau personol. Mae cynllun y gwasanaeth yn galluogi pobl i ddefnyddio'r adnoddau sydd ar gael iddynt yn ddiogel. Mae'r addurn a'r arwyddion trwy gydol y gwasanaeth wedi cael eu dylunio i ysgogi ac i fod o gymorth wrth gyfeirio. Mae nifer o ardaloedd cymunol ac ardaloedd tawelach i bobl gyfarfod yn dibynnu ar yr hyn a ffefrir ganddynt. Mae ystafelloedd gwely pobl wedi cael eu personoli ag eitemau o ddodrefn, addurniadau, ffotograffau a gwaith celf. Mae rhaglen ailwampio helaeth yn mynd rhagddi a chymerir pob ymdrech i leihau aflonyddwch i bobl sy'n byw yn y gwasanaeth.

Arweinyddiaeth a Rheolaeth

Mae trefniadau llywodraethu da ar waith. Mae'r unigolyn cyfrifol wedi ymgymryd ag ymweliadau Rheoliad 73 yn rhithiol ac yn bersonol â'r gwasanaeth yn ystod y pandemig. Darparwyd copiâu o adroddiadau i AGC sy'n arddangos y siaredir â'r bobl a'r staff fel rhan o'i ymweliadau â'r gwasanaeth. Cafodd hyn ei gadarnhau gyda ni gan y staff a'r bobl sy'n byw yn y gwasanaeth. Mae ystod o offer monitro ac archwiliadau y mae'r rheolwr a'r uwch-reolwyr yn ymgymryd â hwy. Mae'r camau sydd eu hangen yn sgil yr archwiliadau hyn yn cael eu gweithredu a'u hadolygu yn rheolaidd.

Mae'r staff yn wybodus ac yn gymwys ac yn gallu gofalu am y bobl sy'n byw yn y gwasanaeth. Dywedodd y staff wrthym eu bod nhw'n teimlo eu bod nhw'n cael eu cefnogi gan y rheolwr ac yn gyffredinol gan y sefydliad. Dywedodd un gweithiwr gofal, *"Fel rheolwr, mae'n anhygoel! Gallaf fynd ati am unrhyw beth."* Dywedodd un arall am y rheolwr: *"Yn wych i ddod ymlaen â hi."* A dywedodd un arall, *"Gallai Caron Group wneud mwy i gydnabod yr holl waith caled gan ofalwyr dros y 18 mis diwethaf – er y cawsom daliad bonws ar gyfer Nadolig 2020."* Mae'r staff yn teimlo'n hyderus y gallant siarad ag aelod o'r uwch-dîm pe bai pryder ganddynt a byddai rhywun yn gwrando ar eu pryder ac yn gweithredu arno: *"Gallaf siarad â'r nyrs neu'r rheolwr os oes pryder gennyf. Rwy'n hyderus y byddant yn gwrando arnaf."* Gwelsom hefyd fod staff yn dilyn mesurau priodol i atal a rheoli heintiau, ac roeddent yn gallu esbonio wrthym eu cyfrifoldebau wrth leihau'r lledaeniad o COVID-19.

Mae'r cofnodion staff yn dangos eu bod nhw'n derbyn cyfnod sefydlu cynhwysfawr, a'u bod yn cael goruchwyliaeth reolaidd ac arfarniad blynyddol. Dylid rhoi ystyriaeth i uwch-ofalwyr gael hyfforddiant goruchwyllo ac arfarnu er mwyn rhoi sgiliau gwell iddynt yn eu rôl. Mae'r staff yn mynychu ystod o hyfforddiant gorfodol a hyfforddiant sy'n benodol i'r gwasanaeth ac roedd matrices hyfforddi'r gwasanaeth yn cadarnhau hyn. Dywedodd staff gofal wrthym am yr hyfforddiant y maent wedi'i fynychu ac roeddent yn gallu dangos dealltwriaeth dda o'u rôl wrth amddiffyn unigolion ac o weithdrefnau symud a thrin. Mae yna bolisïau a gweithdrefnau cyfredol ar waith sy'n cael eu hadolygu yn rheolaidd i gynorthwyo staff. Mae cofnodion recriwtio'n cynnwys yr holl wybodaeth a gwiriadau angenrheidiol.

Crynodeb o Ddiffyg Cydymffurfio

Statws	Ystyr pob un
Newydd	Nodwyd y diffyg cydymffurfio hwn yn yr arolygiad hwn.
Adolygwyd	Adolygwyd cydymffurfedd yn yr arolygiad hwn ac ni chyflawnwyd. Mae'r dyddiad targed ar gyfer cydymffurfedd yn y dyfodol a chaiff ei brofi yn yr arolygiad nesaf.
Ni chyflawnwyd	Profwyd cydymffurfedd yn yr arolygiad hwn ac ni chafodd ei gyflawni.
Cyflawnwyd	Profwyd cydymffurfedd yn yr arolygiad hwn ac fe'i cyflawnwyd.

Rydym yn ymateb i ddiffyg cydymffurfio â rheoliadau pan fo canlyniadau gwael ar gyfer pobl, a/neu risg i lesiant pobl, yn cael eu nodi drwy ddyroddi Hysbysiad(au) Gweithredu â Blaenoriaeth.

Mae'n rhaid i'r darparwr gymryd camau brys i fynd i'r afael â hyn a gwneud gwelliannau. Pan fydd darparwyr yn methu cymryd camau blaenoriaeth erbyn y dyddiad targed, mae'n bosibl y byddwn yn uwchgyfeirio'r mater i Banel Gwelliant a Gorfodi.

Hysbysiad(au) Gweithredu â Blaenoriaeth

Rheoliad	Crynodeb	Statws
Amherthnasol	Ni nodwyd unrhyw ddiffyg cydymffurfio o'r math hwn yn yr arolygiad hwn.	Amherthnasol

Pan fyddwn yn dod o hyd i achosion o ddiffyg cydymffurfio â rheoliadau ond ni nodir unrhyw risg uniongyrchol neu sylweddol ar gyfer pobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth, rydym yn amlygu'r rhain fel Meysydd i'w Gwella.

Rydym yn disgwyl y bydd y darparwr yn cymryd camau i gywiro hyn a byddwn yn mynd ar drywydd y camau hyn yn yr arolygiad nesaf. Pan fo'r darparwr wedi methu gwneud y gwelliannau angenrheidiol, byddwn yn uwchgyfeirio'r mater drwy ddyroddi Hysbysiad Gweithredu â Blaenoriaeth.

Maes/Meysydd i'w Gwella

Rheoliad	Crynodeb	Statws
Amherthnasol	Ni nodwyd unrhyw ddiffyg cydymffurfio o'r math hwn yn yr arolygiad hwn.	Amherthnasol

Dyddiad cyhoeddi 13/01/2022